Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Yr Wyddgrug
# Park Community Centre
# Ash Grove
# Yr Wyddgrug
# Sir y Fflint
# CH7 1RY

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Yr Wyddgrug

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Yr Wyddgrug |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sali Edwards |
| Person â gofal | Emma Ralph |
| Nifer y lleoedd | 17 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 12 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.15 – 11.45 y.b. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Heb gael arolygiad |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/06/2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/05/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br>Ychydig iawn o blant sy'n dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 29, ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn.**

Rydym wedi rhoi gwybod i'r personau cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â sicrhau goruchwyliaeth briodol ar gyfer ymarferwyr (rheoliad 29) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Argymhellion

A1 Cynllunio gweithgareddau pwrpasol ar gyfer yr ardal allanol

A2 Sicrhau bod asesiadau risg yn amlygu gweithdrefnau'r lleoliad hwn yn benodol

A3 Gwella cyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr er mwyn rhannu gwybodaeth am eu profiadau dysgu a'u cynnydd

A4 Mynd i'r afael â'r mater diffyg cydymffurfio

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hynod o weithgar ac yn cyfrannu'n llwyddianus at syniadau ar gyfer themâu amrywiol. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â pha weithgareddau maent am gymryd rhan ynddynt ac yn gwneud dewisiadau da am yr hyn yr ydynt am ei wneud. Er enghraifft, maent yn trafod a rhannu profiadau ynglŷn â'u gwyliau gan wneud penderfyniadau call am yr hyn y bydd angen iddynt ei bacio yn eu siwtces.

Mae bron pob plentyn yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau yn effeithiol gan ganolbwyntio a dyfalbarhau arnynt am gynfod estynedig, er enghraifft wrth ymgolli mewn byd bach dychmygol ar yr 'awyren', chwarae gyda thywod i adnabod rhifau ac wrth chwarae rôl yn y caffi. Maent yn awyddus i rannu eu llwyddiannau gydag ymarferwyr a phlant eraill gan ddweud yr hyn maent yn ei hoffi am y gweithgareddau.

Mae bron pob plentyn yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn gwybod y bydd eu teimladau'n cael eu gwerthfawrogi. Maent yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Mae bron pob un yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Mae hyn yn meithrin eu hyder a hunan-barch yn llwyddiannus.

Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae gydag eraill yn dda, er enghraifft wrth gymryd eu swyddogaeth wrth chwarae yn y tŷ bach twt o ddifri. Maent yn sgwrsio a chytuno ar gemau wrth chwarae sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a gwneud ffrindiau. Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda. Er enghraifft, maent yn cydymffurfio â rheolau ac yn gofalu am a pharchu adnoddau yn briodol wrth iddynt dacluso.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu'n dda ac yn dangos diddordeb cadarnhaol yn eu dysgu. Mae bron pob un yn dysgu medrau newydd wrth iddynt brofi amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol. Maent yn llawn cyffro yn enwedig wrth chwarae tu allan neu wrth wneud crefft.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau annibynnol priodol. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob un yn arllwys diod a didoli ffrwythau yn llwyddiannus heb anogaeth.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Gan ystyried bod y rhan fwyaf o blant yn dechrau yn y lleoliad yn ddi-Gymraeg, maent yn caffael medrau ieithyddol yn fuan. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu agweddau positif at ddysgu.

Mae medrau gwrando rhan fwyaf y plant yn datblygu'n llwyddiannus wrth wrando ar gyfarwyddiadau ymarferwyr yn ystod gweithgareddau ac ymuno ag ymarferion amser cylch. Maent yn eistedd yn llonydd gan ddangos diddordeb a dealltwriaeth gynyddol

o gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd. Yn fuan ar ôl dechrau, mae'r rhan fwyaf yn ymuno ag amrywiaeth eang o ganeuon a gwneud y symudiadau perthnasol yn gywir. Mae gan y plant hynaf ymwybyddiaeth gadarn o hwiangerddi a chaneuon Cymreig. Maent yn mwynhau eu canu yn annibynnol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau, er enghraifft wrth rolio toes i greu 'paella'.

Mae llawer o'r plant yn dod o hyd i'w henwau eu hunain ar ffurf ysgrifenedig yn llwyddiannus heb gymorth pan fyddant yn hunangofrestru ar ddechrau'r sesiwn. Maent yn dangos diddordeb mawr mewn llyfrau gan drin y llyfr yn gywir a dynwared darllen ac adrodd y stori, er enghraifft wrth ddarllen eu llyfrau yn yr awyren yn ystod eu taith ddychmygol i wlad dramor. Mae llawer yn dechrau dangos dealltwriaeth dda o bwrpas ysgrifennu ac yn creu marciau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu medrau ysgrifennu cynnar i gymryd archeb cwsmeriaid yn y caffi wrth chwarae rôl.

Mae mwyafrif o'r plant yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn trwy ddefnydd ymarferol o rif, er enghraifft wrth gyfri nifer y plant sy'n bresennol a chyfateb rhif a chreigiau gyda rhifau hyd at 10. Mae'r plant mwyaf abl yn trefnu a chyfateb rhifau hyd at 20 ac mae llawer yn adnabod lliwiau a siapau dau ddimensiwn yn llwyddiannus.

Mae gan lawer o'r plant fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) priodol. Mae rhan fwyaf y plant yn deall pwrpas offer technolegol yn dda wrth iddynt chwarae rôl, er enghraifft wrth ddefnyddio til yn y caffi a pharatoi bwyd gan ddefnyddio teganau fel tostiwr a thegell. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer recordio sain yn llwyddiannus i recordio eu llais eu hunain ac i wrando ar gyfarwyddiadau yn yr ardaloedd dysgu.

Mae gan lawer o'r plant fedrau corfforol cadarn. Mae eu medrau mudol mân yn datblygu'n llwyddiannus, er enghraifft wrth iddynt gwblhau jig-so, defnyddio toes ac wrth ddefnyddio gefel fach i afael mewn gwrthrychau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau corfforol yn llwyddiannus wrth gymryd rhan mewn sesiynau gweithgareddau corfforol rheolaidd, gan gynnwys cerdded a rhedeg o dan reolaeth ac wrth gymryd rhan mewn gemau parasiwt.

Mae llawer o'r plant yn datblygu eu medrau meddwl ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus, er enghraifft wrth benderfynu pa ddillad sydd eu hangen arnynt i fynd ar wyliau i wlad dramor. Mae medrau creadigol llawer o blant yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt arbrofi â gwahanol ddeunyddiau yn ddyddiol, er enghraifft wrth dorri a gludo darnau papur i wneud llun.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn effeithiol. Mae ganddynt weithdrefnau effeithiol yn eu lle ac maent yn gweithredu polisïau iechyd a diogelwch gan gynnwys hylendid bwyd a darpariaeth ar gyfer rheoli heintiau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o hylendid wrth baratoi bwyd, newid clytiau ac atgoffa plant i olchi dwylo.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau a llysiau yn ddyddiol. Mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn dda, gan sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant fod yn gorfforol weithgar a mentrus tu fewn a thu allan yn yr awyr iach.

Mae'r holl ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg ac yn cofnodi damweiniau'n briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas hyfryd gyda'r plant ac maent yn sensitif i'w hanghenion. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffter unigol. Maent yn creu awyrgylch hapus a chadarn lle mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r rheolau a beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt, trwy roi esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Maent yn trin pob plentyn gydag urddas a pharch ac yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i adnoddau a gweithgareddau. Mae gan y lleoliad weithdrefnau buddiol i fodloni anghenion a dilyn hoffterau unigol plant, sydd yn rhan annatod o gynllunio'r ymarferwyr. Mae ganddynt drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus ag arbenigwyr allanol er mwyn cefnogi unrhyw plentyn sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan ymarferwyr berthynas waith hyfryd gyda'r plant ac maent yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael iddynt ymchwilio a darganfod drostynt eu hunain. Maent yn modelu iaith lafar yn briodol gan atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa gyfarwydd yn gadarn trwy gydol y sesiwn. Mae ymarferwyr yn holi plant yn fedrus er mwyn ehangu eu dealltwriaeth ac i ddatblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus, er enghraifft wrth drafod pam nad oes angen dillad gaeaf i fynd ar eu taith i wlad boeth. Maent yn defnyddio syniadau'r plant yn grefftus er mwyn cynllunio gweithgareddau sy'n adlewyrchu'u diddordebau ac yn adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod. Mae'r ymarferwyr yn addasu'r gweithgareddau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes i fywyd y plant, er enghraifft wrth gynllunio profiadau dysgu hynod ddiddorol yn dilyn gwyliau tramor ychydig o blant. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn dangos diddordeb mawr yn y gweithgareddau fel creu pasbort, pacio dillad addas yn eu siwtces ac wrth eistedd yn eu seddi ar yr awyren sydd wedi'u gwneud o focsys mawr.

Mae'r ymarferwyr yn cofnodi a thrafod deilliannau'r plant yn wythnosol er mwyn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd da o asesiadau cychwynnol a fframwaith y cyfnod sylfaen wrth gynllunio. O ganlyniad, mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei ddatblygu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n datblygu medrau'r plant yn systematig ar draws yr ardaloedd dysgu. Er bod ymarferwyr yn dechrau gwneud y gorau o'r ardal allanol gyfyng sydd ar gael iddynt yn achlysurol, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer datblygu medrau'r plant ymhellach yn yr ardal hon.

Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn datblygu holl fedrau'r plant trwy ganu caneuon a rhigymau yn y sesiynau torfol yn ogystal â phan fyddant yn gweithio yn yr ardaloedddysgu. Mae hyn yn atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith yn gwbl naturiol trwy gydol y sesiwn ac yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau iaith y plant. Yn ogystal, mae hyn, ynghyd â gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig, yn sicrhau bod yr ethos Cymreig yn gryf. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n fuddiol i ddatblygu medrau rhifedd y plant trwy brofiadau dysgu ymarferol, er enghraifft trwy ddefnyddio gefeiliau bach i ddosbarthu gwrthrychau yn ôl lliw. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd yn ogystal â'u medrau mudol mân. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau TGCh trwy ystod addas o weithgareddau a phrofiadau dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o'r gymuned leol trwy wahodd ychydig iawn o ymwelwyr i siarad â'r disgyblion am eu gwaith ac i atgyfnerthu profiadau dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon manwl er mwyn gwneud defnydd o ymwelwyr ac ymweliadau i atgyfnerthu'r profiadau dysgu yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant, er enghraifft trwy drafod am dda a drwg ac wrth addysgu am fywyd pobl mewn gwledydd dramor.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac mae gweithdrefnau perthnasol yn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol. Mae asesiadau risg a driliau tan yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac mae arweinwyr yn cymryd camau cadarn i sicrhau nad oes perygl i ddiogelwch plant, er enghraifft trwy adnabod peryglon yn yr ardal allanol yn eu hasesiadau risg. Er hyn, nid yw'r asesiadau risg bob tro'n ddigon penodol i amlygu peryglon a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r lleoliad hwn yn unig. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae'r lleoliad yn cael ei lanhau'n ddyddiol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod risgiau diangen i blant yn cael eu rheoli neu'u dileu'n effeithiol.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn creu amgylchedd ysgogol, cyfforddus a diddorol ar gyfer y plant. Maent yn dangos ymrwymiad a dyfalbarhad da i gynnal a datblygu'r amgylchedd dysgu. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn dathlu llwyddiannau'r plant yn effeithiol trwy arddangos gwaith crefft y plant yn ddyddiol ac wrth newid yr hyn sydd ar gael yn yr ardaloedd yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr wedi creu ardaloedd dysgu pwprasol o fewn yr ystafell sy'n datblybu annibyniaeth a medrau'r plant yn llwyddianus. Er enghraifft, maent wedi creu cysgodfan ddarllen effeithiol I hybu medrau darllen cynnar a diddordeb y plant mewn llyfrau. Gwneir defnydd effeithiol o ddeunyddiau naturiol ac adnoddau cynaliadwy er mwyn galluogi'r plant i arbrofi a darganfod, er enghraifft wrth i blant fwynhau chwarae yn yr awyren ffug sydd wedi ei chreu allan o focsys. Er nad oes ardal chwarae tu allan benodol ar gael, mae arweinwyr yn gweithio'n galed er mwyn goresgyn hyn. Maent yn dechrau gwneud defnydd addas o ardal y maent yn ei rhannu i sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu tu allan.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystod eang o adnoddau diddorol ac ysgogol ar draws y ddarpariaeth. Maent o ansawdd da ac mae rhan fwyaf o'r adnoddau yn cael eu storio ar lefel sy'n galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth o safon uchel o ran lles a gofal o fewn awyrgylch Cymreig. Mae'r ymarferwyr a'r arweinydd yn cydweithio'n llwyddiannus iawn fel tîm er mwyn cyflawni'r weledigaeth. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain sy'n cyfrannu'n werthfawr at sicrhau awyrgylch ysgogol a chefnogol ar gyfer y plant. Maent yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn cynllunio profiadau dysgu gwerthfawr ac i drafod bywyd a gwaith y lleoliad yn gyffredinol. Mae hyn wedi cyfrannu'n werthfawr at sicrhau gwelliannau amlwg i'r ddarpariaeth ers i'r tîm gael ei sefydlu ar ddechrau'r flwyddyn.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn sicrhau cyflenwad addas o staff sy'n gymwys i weithio gyda'r amrediad eang o blant sy'n mynychu. Maent yn gwneud y defnydd gorau o fedrau personol y staff i gyflawni amcanion y lleoliad ac i gynnig ystod o brofiadau gwerthfawr i'r plant. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o arbenigedd cerddorol ac ieithyddol ymarferwr i hybu iaith y plant trwy ganu ystod eang o ganeuon trwy gydol y sesiwn. Mae aelodau'r pwyllgor yn cefnogi'r arweinydd a'r ymarferwyr yn effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r lleoliad. Mae prosesau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cyfrannu'n werthfawr i gyflawni nodau strategol ac amcanion y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gweithredu trefniadau goruchwylio ar gyfer yr ymarferwyr hyd yn hyn. Mae arweinwyr yn dechrau trefnu hyfforddiant buddiol i ymarferwyr sy'n berthnasol i'w gwaith, er enghraifft ar sut i sefydlu ardaloedd dysgu pwrpasol a hyfforddiant cymorth cyntaf. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol staff yn ogystal â gwella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad y plant.

Mae arweinwyr yn dechrau sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer hunanwerthuso perfformiad y lleoliad. Mae'r staff yn cyfrannu'n werthfawr at y broses mewn cyfarfodydd wythnosol ac yn cynnig syniadau gwerthfawr ar sut i wella'r ddarpariaeth a safonau'r plant. Maent yn manteisio ar adolygiadau, cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol fel y Mudiad Meithrin ac athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol i sicrhau gwelliannau. Mae'r cynlluniau gwella yn glir a threfnus ac yn cynnwys targedau synhwyrol a phwrpasol ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn casglu barn rhieni am fywyd a gwaith y lleoliad yn briodol ac yn gweithredu ar eu barn yn addas, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i wella'r cyfathrebu rhwng y lleoliad a'r cartref. Fodd bynag, nid y'r arweinwyr yn darparu gwybodaeth reolaidd i rieni ynglŷn â chynnydd eu plant ac am eu dysgu o ddydd i dydd.

Mae'r arweinwyr yn monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn effeithiol yn dymhorol er mwyn adnabod yr hyn maent wedi ei gyflawni a beth sydd angen ei weithredu nesaf. Mae'r trefniadau hunanwerthuso effeithiol hyn wedi sicrhau gwelliannau amlwg dros y blwyddyn ddiwethaf, er enghraifft wrth i ymarferwyr wella'u dulliau asesu a chynllunio ar gyfer y plant yn ogystal â datblygu'r amgylchedd dysgu i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r ystod eang o bartneriaethau gwerthfawr yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau plant. Mae'r berthynas fuddiol gyda'r ysgol leol a'r Cylch Ti a Fi yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo'n esmwyth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2019